

**30 July 2019**

**To all public bodies in Wales**

**We're in a climate emergency – divest from fossil fuel companies**

We call on all public bodies in Wales to develop truly ethical investment policies which do not include any fossil fuel firms.

Cardiff Council recently (Thursday 18 July 2019) voted to divest its pension fund from fossil fuel companies and the Welsh Government and National Assembly for Wales have both recently declared a climate emergency. The pension funds of both of these institutions do however continue to invest in fossil fuel companies. The Assembly Members Pension Fund invests in Royal Dutch Shell for instance and the Welsh Government Pension Fund pays into the Rhondda Cynon Taf Local Authority Pension Fund who invest millions in fossil fuel companies.

In fact, Local Authority Pension Funds around Wales still invest around £1bn in fossil fuels – the industry most responsible for the climate crisis.

We only have around 11 years to avert disastrous runaway climate change, according to the Intergovernmental Panel on Climate Change. It is the poorest people, both here in Wales and globally, that are least responsible and yet most affected by climate change. We must divest from fossil fuels now to help support more vulnerable countries where people are already experiencing the front line impacts of climate change.

Financial institutions such as the International Monetary Fund, HSBC and the Bank of England have warned about the financial risk of fossil fuel investments and we already see fossil fuel companies struggling, with major coal companies declaring bankruptcy and big oil companies hitting record low profits.

Removing money from these fossil fuel firms now will also help safeguard the hard earned pensions of workers around Wales.

With the Welsh Government recently announcing a target for net zero climate change emissions by 2050, continuing to invest in fossil fuel firms would send out entirely the wrong message. The time to act is now.

We therefore call on all public bodies in Wales to divest from fossil fuel companies.

Friends of the Earth Cymru

Future Generations Commissioner for Wales

UNISON Cymru/Wales

Oxfam Cymru

University and College Union Cymru

British Lung Foundation Wales

NUS UK

Sustrans Cymru

CAFOD Wales

## **At yr holl gyrrff cyhoeddus yng Nghymru**

### **Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd - dadfuddsoddwch o gwmnïau tanwyddau ffosil**

Rydym yn galw ar yr holl gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu polisiau buddsoddi gwirioneddol foesegol, nad ydynt yn cynnwys unrhyw gwmnïau tanwyddau ffosil.

Yn ddiweddar (dydd Iau 18 Gorffennaf 2019), pleidleisiodd Cyngor Caerdydd i ddadfuddsoddi ei gronfa bensiwn o gwmnïau tanwyddau ffosil ac mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ddiweddar, wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd. Fodd bynnag, mae cronfeydd pensiwn y ddau sefydliad yma yn parhau i fuddsoddi mewn cwmnïau tanwyddau ffosil. Mae Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad yn buddsoddi yn Royal Dutch Shell er enghraifft, ac mae Cronfa Bensiwn Llywodraeth Cymru yn talu i mewn i Gronfa Bensiwn Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf sy'n buddsoddi miliynau mewn cwmnïau tanwyddau ffosil.

Yn wir, mae Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn parhau i fuddsoddi oddeutu £1 biliwn mewn tanwyddau ffosil - y diwydiant sydd fwyaf cyfrifol am yr argyfwng hinsawdd.

Dim ond oddeutu 11 mlynedd sydd gennym i weithredu'n bendant i atal newid yn yr hinsawdd trychinebus, allan o reolaeth, yn ôl y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd. Y bobl dlotaf, yma yng Nghymru a ledled y byd, sydd leiaf cyfrifol am newid yn yr hinsawdd, ond sydd yn cael eu heffeithio fwyaf ganddo. Mae'n rhaid i ni ddadfuddsoddi o danwyddau ffosil nawr, i helpu i gefnogi gwledydd mwy bregus lle mae pobl eisoes yn profi effeithiau uniongyrchol newid yn yr hinsawdd.

Mae sefydliadau ariannol megis y Gronfa Ariannol Ryngwladol, HSBC a Banc Lloegr wedi rhybuddio am risg ariannol buddsoddiadau tanwyddau ffosil ac rydym eisoes yn gweld cwmnïau tanwyddau ffosil yn wynebu trafferthion, gyda chwmnïau glo mawr yn mynd yn fethdalwyr a chwmnïau olew mawr yn wynebu'r lefelau elw isaf erioed.

Bydd tynnu arian o'r cwmnïau tanwyddau ffosil hyn nawr, hefyd yn helpu i ddiogelu pensiynau gweithwyr ledled Cymru a enillwyd drwy waith caled.

Gyda Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'n ddiweddar targed sero net ar gyfer allyriadau newid yn yr hinsawdd erbyn 2050, byddai parhau i fuddsoddi mewn cwmnïau tanwyddau ffosil yn sicr yn anfon y neges anghywir. Nawr yw'r amser i weithredu.

Rydym felly yn galw ar yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddadfuddsoddi o gwmnïau tanwyddau ffosil.

Yn gywir

Cyfeillion y Ddaear Cymru

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

UNSAIN Cymru/Wales

Oxfam Cymru

Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru

Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru

UCM y DU

Sustrans Cymru

CAFOD Cymru